Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council

Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn cychwyn y Nadolig eleni gyda 'BANG' gyda hwyl Nadoligaidd i'r teulu i gyd. Mae dydd Sadwrn yr 20fed o Dachwedd yn gyfle i hysbysebu'r dref, ei fusnesau a'i siopau i gynulleidfa eang.

Am 12 canol dydd fe fydd Parêd y Ceirw yn gadael Parc Caerfyrddin gyda Siôn Corn ac yn gorymdeithio drwy Heol Awst, Heol Mansel, Heol y Gwyddau, Ffordd y Farchnad, Heol Awst, Porth Tywyll, Y Clos Mawr, Stryd y Neuadd, Maes Nott a Stryd y Brenin. Samba Doc fydd yn arwain yr orymdaith ar hyd Caerfyrddin gyda'u perfformiad drymio.

Rhwng 1pm a 4pm bydd Gorsafoedd Coblynnod wedi'u lleoli ar hyd y dref, gyda gweithgareddau Nadoligaidd am ddim i blant. Bydd Y Clos Mawr, Maes Nott, Yr Atom, Rhodfa Santes Catrin, Lôn Jackson a Rhodfa Myrddin i gyd yn ymuno yn yr hwyl gyda llawer o bethau i'w gwneud am ddim trwy gydol y prynhawn.

Fe fydd bwrlwm Nadoligaidd o gwmpas y dref wrth ddisgwyl i'r Goleuadau Nadolig cael eu cynnau am 4.30 p.m. Maer Caerfyrddin, y Cynghorydd Gareth John, fydd yn cael yr anrhydedd o gynnau'r Goleuadau Nadolig yn y dref eleni, gan gynnwys y coed Nadolig hyfryd yng Nghaerfyrddin. Fe fydd y strydoedd ledled y dref yn cael eu goleuo gan oleuadau ac addurniadau hyfryd.

Yn olaf, bydd y Tân Gwyllt o Gastell Caerfyrddin am 5pm i ddathlu dechrau'r Nadolig yng Nghaerfyrddin.

Os hoffech fod on rhan o'r dathliadau, yna beth am addurno ffenestri eich busnes, hyrwyddo cynigion arbennig ar y diwrnod, neu hyd yn oed noddi addurniadau Nadolig yn y dref.

Am fwy o fanylion cysylltwch a Jenny Fox drwy ebost jafox@carmarthentowncouncil.gov.uk